

# CYNGOR TREF Y BALA TOWN COUNCIL

---

Swyddfa'r Cyngor, Yr Henblas, Stryd Fawr, Y Bala, Gwynedd LL23 7AE

Ffôn: Tel: 07786 662905

[cyngorybala@outlook.com](mailto:cyngorybala@outlook.com)

## Cofnodion Cyngor Tref Y Bala

**3/7/2014**

**Presennol:** Y Maer, Ivora Jones, Y Dirprwy Maer, Eifion Roberts, Dilys Evans, Dorothei Evans, Sharon Evans, Dilwyn Jones, Alun Price, Islwyn Pritchard-Jones, Carol Rowlands, John C Williams, Y Cyngorydd Dilwyn Morgan, Y Clerc, Lis Puw.

1. Estynnodd y Maer groeso cynnes i bawb.
2. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Eluned Jones, Edith Roberts.
3. Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda
4. Derbyniwyd datganiadau buddiant gan Sharon Evans a Dorothei Evans ym mater cynllunio eitem 10b.
5. Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 5ed Mehefin, 2014 a diolchwyd i Dorothei Evans am gymryd y Cofnodion.
6. **Materion yn codi o gofnodion Mehefin:** cytunwyd i'r Clerc holi ymhellach ar fater plac.
7. **Materion y Cyngorydd Sir:** mae'r gwair wedi ei dorri ar hyd y ffordd osgoi ac ar hyd ochr Stryd y Castell sydd ym mherchnogaeth Cyngor Gwynedd. Diolchwyd i weithwyr Cyfoeth Naturiol Cymru ar wneud gwaith tacluso da ar lan y llyn. Adroddodd fod perchnogaeth cerflun Tom Ellis yn parhau yn ddiregelwch.
8. **Materion lleol y Cyngorwyr Tref:** trafodwyd diogelwch cerddwyr ar y llwybr ar hyd lan y llyn gan fod beicwyr weithiau'n teithio'n fuan a dirybudd. Cytunodd y Cyngorydd Dilwyn Morgan i holi am arwyddion i'w gosod yno.
9. Diolchwyd i'r Urdd a Huw Antur yn arbennig am sicrhau ymestyn y llwybr i Lanuwchllyn.
10. **Materion Cynllunio :**
  - a) Cais NP5/53/L318A i osod ffenest dormer a balconi tu blaen, ac amnewid ffenest to yng nghefn 2 Heol Arennig (Tŷ Seren): cytunwyd gyda barn Swyddogion Parc Cenedlaethol Eryri na fyddai'r datblygiad yn gydnaws â'r adeiladau cofrestredig sydd o gwmpas y safle.
  - b) Cais am sylwadau'r Cyngor ar gais i ddi-ddymu Adran 106 (gosodwyd 8/2/91) ar Hen Ysgubor, Maes Awelon, Y Bala: cytuna'r Cyngor gyda pholisi Parc Cenedlaethol Eryri parthed Adran 106.
  - c) Derbyniwyd gwybodaeth am ganiatâd i adeiladu estyniad deulawr i 8 Cae Gadlas.

---

Arwyddwyd.....(Maer).....(Clerc)1

ch) Derbyniwyd rhestr o ddyddiadau prif bwyllgorau Parc Cenedlaethol Eryri .

d) Derbyniwyd llythyr o ddiolch am bresenoldeb cynrychiolydd yng nghyfarfod Coed y Brenin.

dd) Derbyniwyd gwybodaeth am ganiatâd i newidiadau i fflatiau Cysgod y Coleg.

## 11. Materion Cyllid

- i. Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol ddiweddaraf:

Cyfrif Cyfredol 9/6/14	£11,857.02
Cyfrif cadw 9/5/2014	£13,019.87
Cronfa'r Maer	£778.58
- ii Cytunwyd i dalu anfonebau'r mis:
  - Turnock – goleuadau Nadolig (grant gwella delwedd y dref):£3832 + TAW =£4598.40
  - Canolfan Bro Tegid : £65
  - Cyflog y Clerc am fis Mehefin: £331.35 (PAYE wedi ei dynnu)
  - G Edwards – gwaith ar y Domen £720
  - 3 mis o dreth PAYE: £248.40
  - Anfoneb o Lanuwchllyn am hanner cost Cwrs y Clerc : £53

## 12. Gohebiaeth

### Cyngor Gwynedd

- i. Nodwyd derbyn hysbysiad ymestyn cyfnod ymateb i gynllun datblygu Gwynedd a Môn.
- ii. Ystyriwyd ymgynghoriad ar ddarpariaeth Addysg Arbennig a chytunwyd gydag Opsiwn 4, gan ychwanegu fod angen gofalu bod adnoddau digonol yn cael eu rhoi yn Nhŷ Meirion. Mynegwyd tristwch bydd safle'r ysgol newydd yn bell oddi wrth ysgol prif lif ac na fydd cyfle i integreiddio.
- iii. Derbyniwyd gwybodaeth am gau ffordd Rhesdai Cambrian ar 16/7/14 er mwyn gwneud gwaith BT.
- iv. Nodwyd gwahoddiad i dîm defnyddwyr Neuadd Buddug 15/7/14 am 4.30.

b. **Un Llais Cymru:** Derbyniwyd copïau o "Y Llais".

d. **Heddlu:** Derbyniwyd cydnabyddiaeth Mark Armstrong o lythyr diolch gan y Cyngor.

### e. Eraill

- i. Nodwyd derbyn adroddiad blynyddol yr Ombwdsman.
- ii. Derbyniwyd taflen wybodaeth am Eisteddfod Llangollen.
- iii. Nodwyd derbyn gwybodaeth am Ddeddf Gwarchod Gwybodaeth.

- iv. Nodwyd derbyn cyfle i enwebu ar gyfer anrhydeddau'r Frenhines.
- v. Derbyniwyd Adroddiad yr arbenigwr ar goed a chytunwyd i ddiolch iddo a gofyn i G Edwards osod deunydd compost o gwmpas y gwreiddiau pan fydd yn amserol.
- vi. Derbyniwyd poster Diwrnod Agored yn Awel y Coleg 18/7/14
- vii. Derbyniwyd gwybodaeth am Wynnos a gynhelir am 10.00pm yn Eglwys Crist ar 4/8/14 i gofio am y Rhyfel Byd Cyntaf.

### 13. Asedau'r Cyngor –

- a. Derbyniwyd adroddiad Eifion Roberts ar eu cyflwr. Trefnir gwneud y gwaith ym Medi:
  - Mae angen sylw i foltiau tair mainc wrth Lyn Tegid
  - Mae angen paent ar y meinciau pren a'r polyn fflag wrth y Ganolfan Hamdden
  - Mae angen adnewyddu cefn y bwrdd gwybodaeth ar Y Domen
- b. Cytunodd J C Williams i drefnu symud byrddau'r Cyngor Tref Y Bala o Ganolfan Henblas; rhoddir ystyriaeth i'w dyfodol yng nghyfarfod Medi.
- c. Gofynnwyd i'r Clerc chwilio am brisiau stondinau beic.
- d. Trafodwyd pryder fod beiciau modur yn cael eu parcio ar balmentydd.
- e. Gofynnwyd i'r Clerc holi Swyddogion Gwynedd am eu hadroddiad ar safleoedd posib i osod lloches bws.
- f. Mynegwyd balchder yn y baneri croesawgar a drefnwyd gan y Grŵp Twristiaid gyda chefnogaeth ariannol y Cyngor Tref; awgrymwyd cynnwys pêl droed a chriced fel gweithgareddau eraill pwysig pan ychwanegir at y baneri.

**14. Partneriaeth Penllyn:** derbyniwyd adroddiad gan y Cydlynnydd a soniodd am y gwaith a wneir yn y meysydd parcio; adroddodd fod Canolfan Henblas ar fin agor a bod nifer o'r swyddfeydd eisoes wedi eu gosod.

*Amser gorffen: 8.45pm*